Trydydd Symposiwm Celfyddydau a Diwylliant Sipsiwn, Roma a Theithwyr

**Canolfan y Celfyddydau Taliesin**

Prifysgol Abertawe, Parc Singleton, Abertawe SA2 8PP

Dydd Llun 1 Hydref 2018 - 9.30am - 2.00pm

Mae'n bleser gan Gwmni Diwylliant a Chelfyddydau Romani (RCAC) gyhoeddi Trydydd Symposiwm Celfyddydau a Diwylliant Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Bydd y digwyddiad, a gynhelir yng Nghanolfan y Celfyddydau Taliesin, yn cynnwys artistiaid megis Dr Daniel Baker a Daniel Turner. Ymhlith y gwesteion bydd: Dr Ethel Brooks, Athro Cysylltiol Astudiaethau Menywod a Rhywedd a Chymdeithaseg ym Mhrifysgol Rutgers yn yr UD, sy'n Gymrawd Trawswladol Tate-TrAIN ym Mhrifysgol y Celfyddydau Llundain; Rosamaria Kostic Cisneros, dawnswraig broffesiynol, hanesydd dawns ac ysgolhaig Roma o Brifysgol Coventry; Dr Annabel Tremlett, Uwch-ddarlithydd Gwaith Cymdeithasol yn Ysgol Gwyddorau Iechyd a Gwaith Cymdeithasol Prifysgol Portsmouth; ac Isabel Raabe, a sefydlodd y prosiect ar y cyd â FranziskaSauerbreyo'r swyddfa materion diwylliannol yn Berlin. Mae'r ddwy olaf hefyd yn sefydlwyr ac yn gydlynwyr y prosiect rhyngwladol, RomArchive: Archif Ddigidol y Roma. Bydd yr amrywiaeth eang o siaradwyr, â'u gwahanol feysydd arbenigol, yn agor trafodaeth ynghylch sefyllfa bresennol celfyddydau Sipsiwn, Roma a Theithwyr a'r goblygiadau ehangach ar gyfer cymdeithas.

Cynhelir y digwyddiad cyffrous hwn yng nghyd-destun y prosiect Gypsy Maker 3; menter unigryw gan RCAC sy'n hwyluso datblygiad gwaith arloesol gan artistiaid sefydledig a newydd o gefndiroedd Sipsi, Roma a Theithwyr. Nod y prosiect yw ysgogi dialog rhwng cymunedau am y ffyrdd mae celf yn parhau i ddylanwadu ar fywydau unigolion a chymunedau heddiw. Ar gyfer trydedd cam y prosiect, ar y cyd ag Oriel g39, cyflwynodd RCAC, arddangosfa o'r enw *Shiftwork* o waith newydd gan Daniel Baker, ArturConka, ShamusMcPhee a Billy Kerry a aeth ar daith i leoliadau ledled Cymru.

*"Mae'r celfyddydau yn dod â phleser ac ysbrydoliaeth i'n bywydau beunyddiol.Mae ymwneud â'r celfyddydau, boed fel unigolyn neu fel aelod o gymuned, yn ein helpu i ddod ynghyd i ddathlu ein dynoliaeth gyffredin.Ond gall y celfyddydau ein helpu hefyd i ddeall yr hyn sy'n unigryw a'r hyn y mae'n bwysig ei ddiogelu yn y gwahaniaethau sydd yn ein diffinio ni i gyd.Mae'r celfyddydau yn ein helpu i archwilio a mynegi'r pethau rydym yn eu rhannu a'n lle yn y byd.Mae cymdeithas deg a goddefol yn gwerthfawrogi ac yn parchu anghenion, buddiannau a chreadigrwydd pawb.Mae'n gymdeithas sy'n ddiamynedd yn wyneb amddifadedd, sy'n croesawu cydraddoldeb ac yn dathlu amrywiaeth.Rydym am i'r celfyddydau yng Nghymru gynnwys pawb.Gwyddom y bydd hyn yn gwneud y celfyddydau yng Nghymru yn fwy bywiog, cyffrous a pherthnasol.Rydym yn croesawu'n frwd y cyfraniad y bydd trydydd Symposiwm Cenedlaethol Celfyddydau a Diwylliant Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn ei wneud i'r drafodaeth honno."* Nick Capaldi, Prif Weithredwr Cyngor Celfyddydau Cymru.

*"Rwyf wrth fy modd bod Taliesin yn cynnal symposiwm 2018, ac yn helpu i gael gwared ar y diffyg gwybodaeth a'r rhagfarn sy'n parhau am gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.Unwaith eto, mae artistiaid yn arwain y ffordd wrth chwalu stereoteipiau a dod â golau a dealltwriaeth i'r hyn sy'n parhau'n broblem ddifrifol yn ein cymdeithas"* - Sybil Crouch, Pennaeth Gwasanaethau Diwylliannol, Canolfan y Celfyddydau Taliesin

*'Fel cynrychiolwyr prosiect rhyngwladol sydd â'r nod o gael gwared ar ragfarn drwy hyrwyddo diwylliant a'r celfyddydau, rydym yn argyhoeddedig y bydd Gypsy Maker 3 yn chwarae rôl bwysig o ran cydnabod a gwerthfawrogi diwylliant Roma a Theithwyr - diwylliant sydd â'i wreiddiau canrifoedd yn ôl sy'n dal i fod yn fywiog ac yn amrywiol heddiw.'* Isabel Raabe a Franziska Sauerbrey, Sefydlwyr y Prosiect a Chyfarwyddwyr RomArchive – Archif Ddigidol y Roma

Rydym yn rhagweld y bydd y symposiwm ac arddangosfa hanner dydd cyffrous hyn yn ennyn diddordeb mawr, felly cadwch le yn gynnar drwy ysgrifennu at y RomaniCultural& Arts Company yn: isaacblake@romaniarts.co.uk neu cadwch le ar Eventbrite https://www.eventbrite.com/e/gypsy-roma-traveller-arts-culture-symposium-iii-tickets-45552214901?aff=es2